

Adolygiad Dilynol o Ofal Sylfaenol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Blwyddyn archwilio: 2022

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4096A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Cyflwyniad	4
Negeseuon allweddol	5
Argymhellion	8
Adroddiad manwl	
Rhoi argymhellion archwilio blaenorol ar waith	11
Gwelededd gofal sylfaenol a ffocws arno ar lefel y Bwrdd	16
Capasiti a gallu i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol	19
Atodiadau	
Atodiad 1 – Dulliau archwilio	22
Atodiadau 2 – Argymhellion archwilio 2018	24
Atodiad 3 – Ymateb sefydliadol i'r argymhellion archwilio	28

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Gofal sylfaenol yw'r pwynt cyswllt cyntaf i'r mwyafrif o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae'n cwmpasu ystod eang o wasanaethau, a ddarperir yn y gymuned gan ystod o ddarparwyr, gan gynnwys Meddygon Teulu, Fferyllwyr, Deintyddion, Optometryddion, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill o'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gwirfoddol.
- 2 Yn 2018-19, fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol adolygu gofal sylfaenol ar draws pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru, gyda ffocws penodol ar waith meddygon teulu. Canolbwyntiodd y gwaith hwnnw ar gynllunio strategol, buddsoddi, y gweithlu, goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth, a pherfformiad. Canfu ein [Hadolygiad o Ofal Sylfaenol 2018](#) ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod gofal sylfaenol yn flaenoriaeth gynyddol, gyda'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni ei gynlluniau uchelgeisiol, gyda phwysau o ran y gweithlu yn llai aciwt nag mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad hefyd mai cymysg oedd perfformiad gofal sylfaenol, a bod nifer o heriau anodd yn dal i fodoli.
- 3 Mae'r dirwedd ar gyfer gofal sylfaenol yng Nghymru wedi newid ers ein hadolygiad gwreiddiol yn 2018. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol - [Cymru Iachach](#). Mae'r cynllun yn amlygu rôl hanfodol gofal sylfaenol o ran helpu i wireddu'r uchelgais i greu dull system gyfan ddi-dor gyda gwasanaethau wedi'u dylunio o amgylch pobl, yn seiliedig ar eu hanghenion, gan eu cynorthwyo i gadw'n iach ac nid dim ond darparu triniaeth pan fyddant yn mynd yn sâl. Mae hyn yn golygu bod mwy o wasanaethau a oedd yn draddodiadol yn cael eu darparu mewn ysbyty'n cael eu symud i mewn i'r gymuned i ddarparu gofal gartref neu'n agosach at adref i dynnu pwysau oddi ar ysbytai a lleihau'r amser y mae pobl yn aros cyn cael eu trin.
- 4 Mae'r [Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol](#)¹ yn disgrifio nodau ei rhaglen sydd wedi'u bwriadu i roi cymorth i gyflawni cyfraniad gofal sylfaenol i 'Cymru Iachach'. Eir ar drywydd y rhain trwy chwe ffrwd waith y disgwylir i fyrddau iechyd eu rhoi ar waith wedyn ar lefel leol:
 - canolbwyntio ar atal 'salwch' a chyflawni llesiant;
 - datblygu mynediad 24/7 at wasanaethau;
 - manteisio ar ddata a thechnolegau digidol;
 - cryfhau'r gweithlu a datblygu sefydliadol;
 - gwella cyfathrebu ac ymgysylltu; a
 - datblygu gweledigaeth 'ar lefel clystyrau' a galluogi trawsnewid gwasanaethau.

¹ Y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yw ymateb a chyfraniad Cymru Gyfan gofal sylfaenol i 'Cymru Iachach'.

- 5 Ym mis Chwefror 2023, nododd y Bwrdd Gofal Sylfaenol Cenedlaethol, sy'n goruchwyllo'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, fod y gwaith hwn yn mynd rhagddo ar gyflymder amrywiol yn ardal pob bwrdd iechyd. Ochr yn ochr â hyn, ceir pryderon ehangach ynghylch capasiti Timau Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog o fewn byrddau iechyd i gyflawni blaenoriaethau sefydliadol, yn ogystal â gwelededd gofal sylfaenol a'r ffocws arno ar lefel Byrddau.
- 6 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dechrau ar raglen uchelgeisiol o ddiwygio contractau ar draws y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Deintyddiaeth, Fferylliaeth Gymunedol ac Optometreg i:
- sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol yn gynaliadwy;
 - gwella mynediad cleifion at wasanaethau gofal sylfaenol;
 - atgyfnerthu'r ffocws ar ansawdd ac atal;
 - galluogi trefniadau gweithio mewn clystyrau i gynllunio a darparu gwasanaethau; a
 - chryfhau'r gweithlu.
- 7 Effeithiwyd yn ddifrifol ar wasanaethau gofal sylfaenol gan bandemig COVID-19. Er bod yr argyfwng iechyd cyhoeddus uniongyrchol wedi cilio, mae darparwyr gofal sylfaenol yn dal i wynebu heriau wrth iddynt geisio ailgychwyn, adfer ac ailgyflunio eu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a chwrdd â disgwyliadau'r cyhoedd mewn byd ar ôl y pandemig.
- 8 Mae ein hadolygiad wedi canolbwyntio'n bennaf ar asesu i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r argymhellion a wnaed gennym yn 2018 ar waith. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gwneud rhywfaint o waith ychwanegol i asesu i ba raddau:
- y mae gan Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog y Bwrdd Iechyd y capasiti a'r gallu priodol (o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiad) i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn ogystal â rheoli anghenion gweithredol a busnes o ddydd i ddydd; ac
 - y mae'r Bwrdd a / neu ei bwyllgorau'n mynd ati'n rheolaidd i ystyried materion sy'n ymwneud â chynllunio, perfformiad, risgiau a chyfleoedd mewn perthynas â gwasanaethau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd.
- 9 Caiff y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith eu crynhoi yn **Atodiad 1**.

Negeseuon allweddol

- 10 Ar y cyfan, canfuom **fod y Bwrdd Iechyd yn canlyn arni â gwaith i wella cynllunio strategol, aeddfedrwydd clystyrau ac arweinyddiaeth. Fodd bynnag, mae capasiti gwasanaethau gofal sylfaenol canolog yn dal i fod dan bwysau, ac mae angen rhagor o waith i sefydlu llinell sylfaen ariannol a chryfhau ei ddull o werthuso a phrif ffrydio ffyrdd newydd o weithio. Er bod goruchwyliaeth a chraffu rhesymol ar ofal sylfaenol yng nghyfarfodydd y**

Bwrdd a phwyllgorau, mae angen cryfhau'r modd yr adroddir ar gyflawni cynlluniau, profiad cleifion, a pherfformiad a deilliannau gofal sylfaenol.

Rhoi argymhellion archwilio blaenorol ar waith

- 11 Canfuom fod y Bwrdd lechyd wedi mynd i'r afael â chamau gweithredu sy'n ymwneud â chynllunio strategol a'i fod hefyd yn blaenoriaethu a chryfhau cysondeb aeddfedrwydd clystyrau a hyfforddiant a datblygiad arweinwyr clystyrau. Fodd bynnag, er bod rhai adnoddau wedi cael eu symud o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, araf fu'r cynnydd o hyd, ac nid oes llinell sylfaen ariannol wedi cael ei sefydlu eto. Mae angen i'r Bwrdd lechyd hefyd gryfhau trefniadau ar gyfer gwerthuso a phrif ffrydio ffyrdd newydd o weithio o fewn clystyrau gofal sylfaenol.
- 12 Mae trefniadau'r Bwrdd lechyd ar gyfer ystyried twf y boblogaeth ranbarthol o fewn ei gynlluniau strategol allweddol yn effeithiol. Er nad oes ganddo strategaeth drosfwaol ar gyfer gofal sylfaenol, mae'r Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd (GSCaCh) yn datblygu cynllun cyflawni blynyddol sy'n nodi amcanion strategol ar gyfer gofal sylfaenol a'r rheiny'n cyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r Bwrdd lechyd yn ymgysylltu'n dda â'r cyhoedd a rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynlluniau strategol.
- 13 Mae'r Bwrdd lechyd wedi symud adnoddau ar gyfer rhai gwasanaethau yn llwyddiannus o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, ond mae'r cynnydd yn dal i fod yn araf. Mae hefyd wedi cael trafferth sefydlu dealltwriaeth sylfaenol am wir gost gofal sylfaenol.
- 14 Mae'r Bwrdd lechyd yn gwerthuso, yn prif ffrydio ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i rai ffyrdd newydd o weithio a hynny'n llwyddiannus ac mae'n gwella ei drefniadau ar gyfer rhannu gwersi. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach.
- 15 Mae'r Bwrdd lechyd yn canlyn arni â gwaith i gysoni aeddfedrwydd clystyrau. Mae'n cymryd camau i adolygu aelodaeth clystyrau a phresenoldeb mewn cyfarfodydd ac mae'n cryfhau datblygiad arweinwyr clystyrau. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd lechyd yn cael trafferth penodi i rai swyddi gwag ar gyfer arweinwyr clystyrau, a allai atal cynnydd pellach o ran gwreiddio'r trefniadau a chyflwyno risgiau i gydnerthedd a chynaliadwyedd ar draws clystyrau.

Gwelededd gofal sylfaenol a ffocws arno ar lefel y Bwrdd

- 16 Canfuom fod gofal sylfaenol yn cael ei adlewyrchu yn strategaethau a chynlluniau allweddol y Bwrdd lechyd. Er bod goruchwyliaeth a chraffu rhesymol ar ofal sylfaenol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, ceir cyfleoedd i gryfhau'r broses o adrodd ar gyflawni cynlluniau gofal sylfaenol, profiadau cleifion sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol, a pherfformiad a deilliannau gofal sylfaenol.

- 17 Mae Gofal Sylfaenol yn un o'r elfennau o gynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd, sy'n cyd-fynd yn glir â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae cynllun cyflawni Bwrdd Clinigol GSCaCh y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25 yn nodi nifer o flaenoriaethau blynyddol byrdymor. Fodd bynnag, mae diffyg blaenoriaethau tymor canolig (3 i 5 mlynedd) yn cyflwyno risgiau i allu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei amcanion strategol hirdymor ar gyfer gofal sylfaenol.
- 18 Mae aelodau'r Bwrdd yn ymgysylltu ag arweinwyr a staff gofal sylfaenol gan felly ddangos ymrwymiad i'r agenda gofal sylfaenol. Er nad yw materion sy'n effeithio ar ofal sylfaenol wedi'u gwreiddio'n llawn ym musnes y Bwrdd a phwyllgorau, mae gofal sylfaenol yn dal i fod yn weladwy yn y cyfarfodydd hyn, gan gael sylw mewn ystod o adroddiadau'r Bwrdd Iechyd gyda goruchwyliaeth a chraffu rhesymol ar yr wybodaeth a gyflwynir.
- 19 Mae nifer gyfyngedig o fesurau perfformiad gofal sylfaenol yn parhau i fod wedi'u cynnwys yn Adroddiad Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd, gyda diffyg data ar berfformiad a sylwebaeth ar gynnydd a allai fod yn rhwystri i ddeall a monitro perfformiad gofal sylfaenol yn effeithiol.
- 20 Gallai trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro cynnydd gyda chynlluniau gofal sylfaenol trwy'r diweddariadau ar gynnydd gyda'r CTCI / Cynllun Blynyddol gael eu gwella trwy ddarparu adroddiad pwrpasol ar gynnydd tuag at gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Clinigol GSCaCh. Ceir cyfleoedd hefyd i'r Bwrdd Iechyd fod yn fwy eglur ynghylch mesurau seiliedig-ar-ddeilliannau i helpu i ddeall pa effaith neu wahaniaeth y mae'n ei (g)wneud a pha un a yw'n arwain at ddeilliannau a phrofiadau gwell i gleifion.

Capasiti a gallu i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol

- 21 **Canfuom, er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu nifer y rolau yn ei Dîm Gofal Sylfaenol Canolog, fod capasiti'n dal i fod o dan bwysau oherwydd llwythi gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Ceir trefniadau da i gefnogi datblygiad staff o fewn y tîm, ond mae angen cryfhau trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth.**
- 22 Mae gan Fwrdd Clinigol GSCaCh y Bwrdd Iechyd linellau atebolrwydd clir i'r Prif Swyddog Gweithredu, sy'n cael ei gefnogi gan strwythur rheoli effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu capasiti'r Tîm Gofal Sylfaenol, ond mae llwythi gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn rhoi pwysau ar rai uwch arweinwyr, gan effeithio ar eu gallu i ymateb i anghenion gweithredol a busnes o ddydd i ddydd a'u rheoli.
- 23 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi staff gyda hyfforddiant a datblygiad ar draws gwasanaethau GSCaCh. Fodd bynnag, prin oedd tystiolaeth bod ganddo gynlluniau olyniaeth yn y Tîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, gan gyflwyno rhai risgiau i wytnwch y tîm.

Argymhellion

24 Caiff statws yr argymhellion archwilio a wnaed gennym yn 2018 ei grynhoi yn **Arddangosyn 1**.

Wedi'u Rhoi ar Waith	Wrthi'n Mynd Rhagddynt	Dim Gweithredu	Wedi'u Disodli	Cyfanswm
3	11	-	-	14

25 O ganlyniad i'r gwaith dilynol hwn, rydym wedi gwneud argymhellion newydd i'r Bwrdd lechyd fynd i'r afael â hwy ac fe nodir y rhain yn **Arddangosyn 2**. Caiff ymateb y Bwrdd lechyd i'n hargymhellion ei grynhoi yn **Atodiad 3**.

Arddangosyn 2: argymhellion

Argymhellion

Buddsoddi mewn gofal sylfaenol

A1 Dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:

- 1.1 Gyfrifo sefyllfa sylfaenol ar gyfer ei fuddsoddiad a'i ddefnydd o adnoddau mewn gofal sylfaenol a chymunedol ar hyn o bryd.
- 1.2 Mynd ati, o leiaf yn flynyddol, i adolygu ei fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a chymunedol ac adrodd ar hynny, i asesu'r cynnydd ers y sefyllfa sylfaenol ac i fonitro i ba raddau y mae'n llwyddo i symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol.

Ffyrdd newydd o weithio

A2 Dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:

- 2.1 Gweithio gyda'r clystyrau i gytuno ar fframwaith penodol i werthuso ffyrdd newydd o weithio, i ddarparu tystiolaeth o ddeilliannau buddiol a goleuo penderfyniadau ynglŷn ag ehangu'r modelau hyn ai peidio;
- 2.2 Mynd ati'n ganolog i goladu gwerthusiadau o ffyrdd newydd o weithio a rhannu'r gwersi trwy roi cyhoeddusrwydd i'r negeseuon allweddol ar draws pob clwstwr;
- 2.3 Yn amodol ar werthusiad cadarnhaol, dechrau ariannu modelau newydd â chyllid prif ffrwd; a

Argymhellion

- 2.4 Gweithio gyda'r cyhoedd i hyrwyddo ffyrdd newydd llwyddiannus o weithio, yn enwedig mannau cyswllt amgen newydd mewn gofal sylfaenol sydd â'r potensial i leihau'r galw am apwyntiadau meddygon teulu.

Clystyrau gofal sylfaenol

A3 Dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:

- 3.1 Adolygu aeddfedrwydd perthynol clystyrau, i ddatblygu a gweithredu cynllun i gryfhau ei gymorth i glystyrau lle y bo angen.
- 3.2 Adolygu aelodaeth clystyrau a phresenoldeb yng nghyfarfodydd clystyrau i asesu pa un a oes angen cynyddu cynrychiolaeth o blith awdurdodau lleol, y trydydd sector, cynrychiolwyr lleyg a grwpiau rhanddeiliaid eraill.

Ymagwedd strategol at ofal sylfaenol

- A4 Dylai Cynllun Cyflawni'r Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd gynnwys blaenoriaethau tymor canolig (3 i 5 mlynedd) i roi cymorth i gyflawni amcanion strategol tymor hwy'r Bwrdd lechyd ar gyfer gofal sylfaenol.

Goruchwyliaeth a gwelededd ar lefel y Bwrdd

A5 **Dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:**

- 5.1 Sicrhau bod cynnwys adroddiadau perfformiad ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau'n rhoi sylw digonol i ofal sylfaenol;
- 5.2 Cynyddu mynychder adroddiadau ar berfformiad gofal sylfaenol i'r Bwrdd a phwyllgorau; a
- 5.3 Sicrhau bod adroddiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau'n darparu digon o sylwebaeth ar gynnydd o ran cyflawni cynlluniau'r Bwrdd lechyd ar gyfer gofal sylfaenol, ac i ba raddau y mae'r cynlluniau hynny'n arwain at brofiadau a deilliannau gwell i gleifion.

Adroddiadau blynyddol

- A6 Yn dilyn rhoi'r Cynllun Cyflawni Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd ar waith, dylai'r Bwrdd lechyd gynhyrchu Adroddiad Gofal Sylfaenol blynyddol sy'n nodi ei gyflawniadau yn ystod y flwyddyn flaenorol, gyda'r adroddiad cyntaf yn adlewyrchu'r cyfnod o 2024-25.

Argymhellion

Cynllunio ar gyfer olyniaeth

- A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer ei Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol i sicrhau mwy o gydnerthedd a pharhad busnes o ran sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth.

Adroddiad manwl

Rhoi argymhellion archwilio blaenorol ar waith

- 26 Fe wnaethom ystyried cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran rhoi'r argymhellion archwilio a wnaed gennym yn 2018 ar waith. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar:
- gynllunio strategol (Argymhellion 1 a 2 yn 2018);
 - buddsoddi mewn gofal sylfaenol (Argymhellion 3a a b yn 2018);
 - ffyrdd newydd o weithio (Argymhellion 4a, b, c, a d yn 2018); a
 - chlystyrau gofal sylfaenol (Argymhellion 5a, b, ac c yn 2018).
- 27 Caiff argymhellion sy'n ymwneud â goruchwyliaeth ar ofal sylfaenol yn y Bwrdd a phwyllgorau (Argymhellion 6a, b, ac c yn 2018) eu trafod yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.
- 28 Ar y cyfan, canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â chamau gweithredu sy'n ymwneud â chynllunio strategol a'i fod hefyd yn blaenoriaethu a chryfhau cysondeb aeddfedrwydd clystyrau a hyfforddiant a datblygiad arweinwyr clystyrau. Fodd bynnag, er bod rhai adnoddau wedi cael eu symud o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, araf fu'r cynnydd o hyd, ac nid oes llinell sylfaen ariannol wedi cael ei sefydlu eto. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd gryfhau trefniadau ar gyfer gwerthuso a phrif ffyrddio ffyrdd newydd o weithio o fewn clystyrau gofal sylfaenol.**

Cynllunio strategol

- 29 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi ailedrych ar ei gynllun gofal sylfaenol i sicrhau ei fod yn cynnwys camau gweithredu penodol i ddiwallu anghenion y twf a ragwelir yn y boblogaeth yng Nghaerdydd (Argymhelliad 1 yn 2018). Fe wnaethom hefyd ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu'r cynlluniau ymgynghori a chyfathrebu angenrheidiol i sicrhau ymgysylltiad ystyrion â'r cyhoedd a rhanddeiliaid mewn unrhyw weithgarwch pellach i ddatblygu / mireinio ei gynlluniau gofal sylfaenol (Argymhelliad 2 yn 2018).
- 30 Canfuom **fod cynlluniau strategol allweddol y Bwrdd Iechyd yn ystyried effaith twf yn y boblogaeth, ochr yn ochr â risgiau a chamau gweithredu, i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Canfuom hefyd fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch datblygu cynllun gofal sylfaenol, gweithgarwch gofal sylfaenol a newidiadau i wasanaethau gofal sylfaenol.**
- 31 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol ar gyfer ystyried twf yn y boblogaeth ranbarthol mewn cynlluniau strategol allweddol. Mae wedi defnyddio [Asesiad o Anghenion Poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg 2022](#) i oleuo ei strategaeth hirdymor – ('Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol'), ei [Gynllun Blynnyddol 2023-24](#), a'i [Gynllun Iechyd Cyhoeddus Lleol 2020-23](#). Mae'r cynlluniau hyn yn dangos yn glir sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried twf yn y boblogaeth ac yn gweithredu i ddiwallu anghenion ei boblogaeth. Er enghraifft, mae'r strategaeth hirdymor yn nodi

blaenoriaeth i gysoni gweithlu'r Bwrdd Iechyd â phroffil demograffig y boblogaeth erbyn 2035, ac mae'r Cynllun Blyneddol yn cydnabod, er bod tueddiadau o ran twf yn y boblogaeth wedi arafu, ei bod yn parhau i dyfu. Mae Adolygiad Twf a Chapasiti'r Bwrdd Iechyd², a ddefnyddiwyd i oleuo ei waith i adnewyddu'r Strategaeth Ystadau, hefyd yn nodi cynlluniau ar gyfer twf sylweddol yn y boblogaeth ochr yn ochr â risgiau o ran capasiti a chyllid i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Mae'r adolygiad yn cynnwys blaengynllun gweithredu gyda champau gweithredu penodol a swyddog cyfrifol i liniaru'r risgiau hyn.

- 32 Er nad oes gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Gofal Sylfaenol bwrpasol, mae'r Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd (GSCaCh) yn datblygu Cynllun Cyflawni Integredig ar gyfer 2024-25. Mae'r Cynllun Cyflawni'n nodi amcanion strategol arfaethedig sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau perthnasol gan y Bwrdd Iechyd, ar lefel genedlaethol ac ar lefel ranbarthol³. Mae'r amcanion strategol yn cynnwys amcanion, goblygiadau, risgiau a cherrig milltir cysylltiedig sy'n flaenoriaeth ar gyfer eu cyflawni, gyda nifer o'r rhain yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion y boblogaeth trwy wella cynaliadwyedd gwasanaethau.
- 33 Mae Clystyrau Gofal Sylfaenol a Grwpiau Cynllunio ar Draws Clystyrau hefyd yn defnyddio Asesiad o Anghenion Poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg i oleuo penderfyniadau a datblygu cynlluniau i ymateb i feysydd y mae gan y boblogaeth anghenion ynddynt. **Felly, rydym yn ystyried bod Argymhelliad 1 yn 2018 wedi cael ei roi ar waith.**
- 34 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i sicrhau yr ymgysylltir â'r cyhoedd ynghylch datblygu cynllun gofal sylfaenol, gweithgarwch gofal sylfaenol a newidiadau i wasanaethau gofal sylfaenol. Mae ein hadroddiad Asesu Strwythuredig 2023 yn gwneud sylwadau cadarnhaol ar weithgarwch helaeth y Bwrdd Iechyd i ymgysylltu â'r cyhoedd wrth ddiweddarau ei strategaeth hirdymor, 'Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol', sy'n canolbwyntio ar atal afiechyd, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, a darparu 'gofal yn nes at adref'. Hefyd, mae'r Bwrdd Clinigol GSCaCh wedi sefydlu Grŵp Llywio Gweithgarwch Cyfathrebu Gofal Sylfaenol gan ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am gefnogi gweithgarwch cyfathrebu lleol o fewn gofal sylfaenol, yn benodol yr ymgyrch Dewis Sylfaenol, sy'n ceisio hyrwyddo model a rolau'r tîm amlddisgyblaethol sy'n ehangu ym maes gofal sylfaenol i'r cyhoedd. Mae gan y Bwrdd Iechyd berthynas weithio gref hefyd â'r corff llais dinasyddion newydd, Llais Cymru⁴, ac mae'n ymgysylltu'n weithredol ag ef wrth gynllunio a chyfleu newidiadau i wasanaethau o

² Mae Adolygiad o Dwf a Chapasiti'r Cynllun Datblygu Lleol yn goleuo Strategaeth Ystadau Gofal Sylfaenol 2019 y Bwrdd Iechyd ac yn darparu safbwynt ar dwf poblogaeth wedi'i gynllunio, capasiti ymarfer cyffredinol a materion allweddol, risgiau a blaengynllun.

³ Mae'r rhain yn cynnwys: 6 nod ar gyfer gofal brys ac mewn argyfwng; cynaliadwyedd gwasanaethau contractwyr gofal sylfaenol; cynaliadwyedd gwasanaethau cymunedol ac arbenigol; a gwella'r system gyfan / llwybrau clinigol.

⁴ O 1 Ebrill 2023, fe wnaeth 'Llais' ddisodli'r saith Cyngor Iechyd Cymuned.

fewn clystyrau gofal sylfaenol. **Felly, rydym yn ystyried bod Argymhelliad 2 yn 2018 wedi cael ei roi ar waith.**

Buddsoddi mewn gofal sylfaenol

- 35 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyfrifo sefyllfa sylfaenol ar gyfer ei fuddsoddiad a'i ddefnydd o adnoddau ar hyn o bryd mewn gofal sylfaenol a chymunedol (Argymhelliad 3a yn 2018). Fe wnaethom hefyd ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi mynd ati, o leiaf yn flynyddol, i adolygu ei fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a chymunedol ac adrodd ar hynny, i asesu'r cynnydd ers y sefyllfa sylfaenol ac i fonitro i ba raddau y mae'n llwyddo i symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol (Argymhelliad 3b yn 2018).
- 36 Canfuom **fod y Bwrdd Iechyd yn symud rhai adnoddau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, ond mai araf yw'r cynnydd o hyd. Fodd bynnag, dylai datblygu model ariannol hirdymor helpu'r Bwrdd Iechyd i sefydlu sefyllfa sylfaenol ariannol glir ar gyfer gofal sylfaenol i'w alluogi i gefnogi'r broses o symud adnoddau a gwerthuso a dangos y cynnydd y mae'n ei wneud.**
- 37 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cael trafferth sefydlu llinell sylfaen ariannol i ddeall 'gwir gost' gofal sylfaenol. Fodd bynnag, mae'n dangos bwriad strategol ac mae wedi trosglwyddo rhai adnoddau yn llwyddiannus o ofal eilaidd i ofal sylfaenol, er enghraifft, staff a chyllid ar gyfer gwasanaethau cyhyrysgerbydol, a gwasanaethau iechyd meddwl. Fodd bynnag, yn gyffredinol, araf fu'r cynnydd oherwydd sawl her a rhwystr y bydd angen eu goresgyn cyn y gellir gwneud cynnydd pellach. Mae'r rhain yn cynnwys: y ffocws parhaus ar wella mesurau perfformiad gofal eilaidd; effaith pandemig COVID-19; cyfyngiadau ariannol; y broses faith o werthuso a chasglu tystiolaeth (gweler **paragraff 41**); a chymhlethdodau symud cyllid buddsoddi rhwng gwasanaethau.
- 38 Yn gadarnhaol, mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu model ariannol hirdymor i gyflawni cynaliadwyedd ariannol mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'n archwilio sut y gall ganolbwyntio ei adnoddau ar ofal sylfaenol, cymunedol ac ataliol i gyflawni arbedion yn y tymor hir. Dylai hyn hefyd ei helpu i sefydlu sefyllfa sylfaenol ariannol glir i bennu gwir gost gofal sylfaenol y gall ei defnyddio i werthuso a dangos y cynnydd y mae'n ei wneud o ran symud adnoddau. **Felly, rydym yn ystyried bod Argymhellion 3a a 3b yn 2018 wrthi'n mynd rhagddynt. Maent bellach wedi cael eu disodli gan Argymhelliad 1.1 ac 1.2 yn 2024.**

Ffyrdd newydd o weithio

- 39 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi:
- gweithio gyda'r clystyrau i gytuno ar fframwaith penodol ar gyfer gwerthuso ffyrdd newydd o weithio, i ddarparu tystiolaeth o ddeilliannau buddiol a goleuo penderfyniadau pa un a ddylid ehangu'r modelau hyn (Argymhelliad 4a yn 2018);

- casglu gwerthusiadau o ffyrdd newydd o weithio yn ganolog a rhannu'r hyn a ddysgwyd drwy roi cyhoeddusrwydd i'r negeseuon allweddol ar draws pob clwstwr (Argymhelliad 4b yn 2018);
- yn amodol ar werthusiad cadarnhaol, dechrau ariannu modelau newydd o gyllid prif ffrwd yn hytrach na'r gronfa datblygu gofal sylfaenol (Argymhelliad 4C yn 2018); a
- gweithio gyda'r cyhoedd i hyrwyddo ffyrdd newydd llwyddiannus o weithio, yn enwedig manau cyswllt cyntaf amgen ym maes gofal sylfaenol sydd â'r potensial i leihau'r galw am apwyntiadau gyda meddyg teulu (Argymhelliad 4d yn 2018).

40 Canfuom, **er bod y Bwrdd lechyd yn gwerthuso, yn prif ffrydio ac yn hyrwyddo rhai ffyrdd newydd o weithio, nad yw'r trefniadau hyn wedi'u gwreiddio'n llawn eto o fewn clystyrau gofal sylfaenol sy'n rhwystro cynnydd pellach.**

41 Mae'r Bwrdd lechyd wedi bod yn llwyddiannus wrth werthuso a phrif ffrydio (gan ddefnyddio cyllid craidd) rhai ffyrdd newydd o weithio, megis ei fodolau Gwasanaethau Cyhyrsgerbydol ac lechyd Meddwl. Fodd bynnag, nid yw eto wedi gwreiddio ei drefniadau gwerthuso'n llawn o fewn clystyrau gofal sylfaenol gan arwain at ddulliau anghyson o werthuso ffyrdd newydd o weithio. Ceir tystiolaeth dda bod y Bwrdd lechyd yn rhannu gwersi a negeseuon allweddol yn genedlaethol ac yn lleol gan ddefnyddio adolygiadau o glystyrau gan gymheiriaid, adolygiadau cyflym o ddatblygu clystyrau, cyfarfodydd lleol, a'r Grŵp Gwasanaethau Clinigol. Fodd bynnag, mae angen o hyd iddo sefydlu dull systematig a chyson ar gyfer coladu gwerthusiadau'n ganolog, rhannu gwersi, a rhoi cyhoeddusrwydd i negeseuon allweddol ar draws clystyrau. Ym **mharagraff 37**, rydym yn gwneud sylwadau ar yr heriau a'r rhwystrau y bydd angen iddo eu goresgyn er mwyn galluogi buddsoddiad pellach mewn gofal sylfaenol ac felly gwneud cynnydd pellach i brif ffrydio ffyrdd newydd o weithio. **Felly, rydym yn ystyried bod Argymhellion 4a, 4b a 4C yn 2018 wrthi'n mynd rhagddynt. Maent bellach wedi cael eu disodli gan Argymhellion 2.1, 2.2, a 2.3 yn 2024.**

42 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau da i hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio. Ym **mharagraff 34** rydym yn gwneud sylwadau ar rôl Grŵp Llywio Gweithgarwch Cyfathrebu Gofal Sylfaenol y Bwrdd lechyd a'r ymgyrch Dewis Sylfaenol. Canfu ein gwaith fod y Bwrdd lechyd yn defnyddio iaith a therminoleg hygyrch a dulliau cyfathrebu gwahanol i ymgysylltu â'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae angen iddo gryfhau'r trefniadau o hyd trwy gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o sut i gael mynediad at y pwynt cyswllt cyntaf priodol ar gyfer eu hanghenion. **Felly, rydym yn ystyried bod Argymhelliad 4d yn 2018 wrthi'n mynd rhagddo. Mae bellach wedi'i ddisodli gan Argymhelliad 2.4 yn 2024.**

Clystyrau gofal sylfaenol

- 43 Fe wnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi:
- adolygu aeddfedrwydd perthynol clystyrau, i ddatblygu a gweithredu cynllun i gryfhau ei gymorth i glystyrau lle y bo angen (Argymhelliad 5a yn 2018).
 - adolygu aelodaeth clystyrau a phresenoldeb yng nghyfarfodydd clystyrau i asesu a oes angen cynyddu cynrychiolaeth gan awdurdodau lleol, y trydydd sector, cynrychiolwyr lleig a grwpiau rhanddeiliaid eraill (Argymhelliad 5b yn 2018).
 - Annog pob arweinydd clwstr i fynychu'r cwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus (Argymhelliad 5c yn 2018).
- 44 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn canlyn arni â gwaith i gysoni aeddfedrwydd clystyrau gofal sylfaenol, adolygu aelodaeth clystyrau a phresenoldeb mewn cyfarfodydd, a chryfhau hyfforddiant a datblygiad ar gyfer Arweinwyr Clystyrau. Fodd bynnag, mae'n cael trafferth penodi i sawl rôl Arweinydd Clwstr, a allai atal cynnydd o ran gwreiddio'r trefniadau hyn a chyflwyno risgiau o ran cydnheredd a chynaliadwyedd ar draws clystyrau.**
- 45 Mae Cynllun Cyflawni Bwrdd Clinigol GSCaCh y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2024-25 sydd wrthi'n dod i'r amlwg yn nodi bod cysoni aeddfedrwydd clystyrau gofal sylfaenol yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r cynllun yn nodi cerrig milltir sy'n rhychwantu 2023-24 a 2024-25 i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei gymorth i glystyrau. Mae'r rhain yn cynnwys cwblhau adolygiad o glystyrau gan gymheiriaid i oleuo anghenion datblygu ac asesu aeddfedrwydd clystyrau, meithrin capasiti trwy ei raglen gofal cymunedol, a chryfhau trefniadau cynllunio a darparu clystyrau.
- 46 Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Grwpiau Cynllunio ar draws Clystyrau Cyfan ac fel a grybwyllwyd ym **mharagraff 41**, mae wedi penodi Rheolwyr Datblygu Clystyrau i gryfhau'r modd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu comisiynu a'u darparu ar draws clystyrau gofal sylfaenol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso effeithiolrwydd y trefniadau hyn. **Felly, rydym yn ystyried bod Argymhelliad 5a yn 2018 wrthi'n mynd rhagddo. Mae bellach wedi cael ei ddisodli gan Argymhelliad 3.1 yn 2024.**
- 47 Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd y Rhaglen Strategol Genedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol gylch gorchwyl enghreifftiol ar gyfer cyfarfodydd clystyrau a oedd yn estyn aelodaeth yn ffurfiol i gynnwys arweinwyr gofal cymdeithasol a chynrychiolwyr y trydydd sector. Roedd y cylch gorchwyl hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o feysydd eraill fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwasanaethau iechyd meddwl, a rheoli meddyginiaethau. Cafodd clystyrau hefyd yr opsiwn i gynnwys aelodau eraill yn ôl yr angen er yr ystyriwyd nad oedd cynrychiolaeth o blith cleifion yn rhan o'r aelodaeth graidd. Yn hytrach, awgrymwyd ymdrin â hyn trwy sefydlu fforymau ymgysylltiad a chyfranogiad cleifion lle y bo hynny'n berthnasol ar lefel leol. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn adolygu aelodaeth clystyrau i adnabod bylchau yn y trefniadau presennol, ac aelodaeth ehangach o glystyrau wrth iddo adnabod mwy o bartneriaid. **Felly, rydym yn ystyried bod**

Argymhelliad 5b yn 2018 wrthi'n mynd rhagddo. Mae bellach wedi cael ei ddisodli gan Argymhelliad 3.2 yn 2024.

- 48 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhai camau cadarnhaol i gryfhau hyfforddiant arweinyddiaeth ar gyfer Arweinwyr Clystyrau. Ers ein gwaith blaenorol, mae'r cwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus wedi newid ei ffocws i Ddarpar Reolwyr Practisiau, gyda thrafodaethau cenedlaethol yn cael eu cynnal mewn perthynas â datblygu rhaglen datblygu arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer gofal sylfaenol. Yn ei absenoldeb, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynorthwyo staff y Bwrdd Clinigol GSCaCh, gan gynnwys Arweinwyr Clystyrau, i fynychu nifer o raglenni a chyrtsiau hyfforddi arweinyddiaeth a ddarperir gan Blatfform Arweinyddiaeth 'Gwella' Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac Academi Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn sefydlu Academi GSCaCh i roi cymorth addysg a hyfforddiant ychwanegol o fewn y Bwrdd Clinigol GSCaCh. Rydym yn gwneud sylwadau pellach ar hyn ym **mharagraff 70**.
Felly, rydym yn ystyried bod Argymhelliad 5c yn 2018 wedi cael ei roi ar waith.
- 49 Er gwaethaf y buddsoddiad hwn a chynlluniau ychwanegol i gryfhau hyfforddiant a datblygiad Arweinwyr Clystyrau trwy'r Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam, mae sawl swydd wag ymhlith rolau Arweinwyr Clystyrau sy'n cyflwyno risgiau i gydnerthedd a chynaliadwyedd ar draws clystyrau. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn datblygu Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol sy'n nodi sawl blaenoriaeth ar gyfer mynd i'r afael â recriwtio a chadw staff ar draws yr holl leoliadau gofal sylfaenol, gan gynnwys clystyrau.

Gwelededd gofal sylfaenol a ffocws arno ar lefel y Bwrdd

- 50 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a / neu ei bwyllgorau'n mynd ati'n rheolaidd i ystyried materion sy'n ymwneud â chynllunio, perfformiad, risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd.
- 51 Roeddem yn disgwyl gweld y canlynol:
- Mae gofal sylfaenol yn cael ei adlewyrchu yn strategaethau a chynlluniau'r Bwrdd Iechyd ac mae'n adlewyrchu uchelgeisiau 'Cymru Iachach'.
 - Mae gofal sylfaenol wedi'i gynnwys yng nghylch gorchwyl a chynlluniau gwaith y Bwrdd a'r pwyllgor(au) perthnasol.
 - Mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod gofal sylfaenol yn cael ei ystyried yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ac mae'n cael sylw mewn papurau ac adroddiadau o elfennau ehangach busnes y Bwrdd Iechyd, e.e. adroddiadau cyllid, risg a chan wasanaethau perthnasol.
 - Mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried cyhoeddi adroddiad blynyddol a neilltuir i ofal sylfaenol.
- 52 Fe wnaethom hefyd ystyried:
- a yw cynnwys adroddiadau perfformiad y Bwrdd a phwyllgorau'n rhoi sylw digonol i ofal sylfaenol (Argymhelliad 6a yn 2018).

- a yw'r Bwrdd lechyd wedi cynyddu mynychder adroddiadau ar berfformiad gofal sylfaenol (Argymhelliad 6b yn 2018).
- a yw'r Bwrdd lechyd wedi sicrhau bod adroddiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau'n darparu digon o sylwebaeth ar gynnydd o ran cyflawni cynlluniau'r Bwrdd lechyd ar gyfer gofal sylfaenol, ac i ba raddau y mae'r cynlluniau hynny'n arwain at well profiadau a deilliannau i gleifion (Argymhelliad 6c yn 2018).

- 53 Canfuom fod **gofal sylfaenol yn cael ei adlewyrchu yn strategaethau a chynlluniau allweddol y Bwrdd lechyd. Er bod goruchwyliaeth a chraffu rhesymol ar ofal sylfaenol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau, ceir cyfleoedd i gryfhau'r broses o adrodd ar gyflawni cynlluniau gofal sylfaenol, profiadau cleifion sy'n cael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol, a pherfformiad a deilliannau gofal sylfaenol.**
- 54 Mae Gofal Sylfaenol yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn strategaeth hirdymor y Bwrdd lechyd a'i Gynllun Blyneddol 2023-24. Mae'r cynlluniau hyn yn cyd-fynd yn glir ag uchelgais 'Cymru Iachach', ac yn rhoi pwyslais cryf ar ddarparu gofal yn nes at adref. Fel y soniwyd ym **mharagraff 32**, mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu Cynllun Cyflawni'r Bwrdd Clinigol GSCaCh ar gyfer 2024-25. Er bod y cynllun hwn yn nodi sawl blaenoriaeth flynyddol tymor byr i ymateb i faterion brys, mae diffyg blaenoriaethau tymor canolig o bosibl yn peri risg i allu'r Bwrdd lechyd i gyflawni ei amcanion strategol hirdymor ar gyfer gofal sylfaenol (**Argymhelliad 4 yn 2024**).
- 55 Mae aelodau'r Bwrdd yn ymgysylltu'n rhagweithiol ag arweinwyr a staff gofal sylfaenol, gan ddangos felly bod ganddynt ymrwymiad clir i agenda gofal sylfaenol y Bwrdd lechyd. Er enghraifft, mae'r Is-gadeirydd wedi cadeirio cyfarfodydd datblygu clwstwr carlam a rhannu gwersi gyda'r Bwrdd mewn cyfarfodydd. Hefyd, mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac uwch arweinwyr eraill bob chwe mis a phob mis yn y drefn honno, i drafod perfformiad a chynlluniau gofal sylfaenol.
- 56 Fodd bynnag, nid yw materion sy'n ymwneud â gofal sylfaenol wedi'u gwreiddio'n llawn o fewn busnes rheolaidd y Bwrdd a phwyllgorau. Ac eithrio rhywfaint o ffocws ar fonitro gwybodaeth am berfformiad ar draws gwasanaethau wedi'u comisiynu, gan gynnwys gofal sylfaenol a chontractau gofal sylfaenol, nid yw'r cylch gorchwyl na'r cynlluniau gwaith ar gyfer pwyllgorau'n cyfeirio at ofal sylfaenol. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd ystyried cryfhau'r dogfennau allweddol hyn er mwyn sicrhau ffocws parhaus ar yr elfen hon o'i fusnes.
- 57 Er gwaethaf hyn, mae gofal sylfaenol i'w weld o hyd yn y Bwrdd a phwyllgorau gyda chraffu a goruchwyliaeth resymol o'r wybodaeth a gyflwynir. Yn ystod 2021-22, roedd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) yn cynnwys prif risg yn ymwneud â chynaliadwyedd gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol. Fodd bynnag, ym mis Medi 2023, cafodd ei ymgorffori mewn risg strategol ehangach yn ymwneud â darparu gofal brys ac argyfwng cynaliadwy mor agos at gartref â phosibl. Er ein bod o'r farn bod y dull hwn yn foddhaol ar y cyfan, bydd angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau ei fod yn dal i ystyried a rheoli risgiau strategol allweddol sy'n wynebu gofal sylfaenol drwy ei drefniadau rheoli risg corfforaethol a gweithredol.

- 58 Mae'r Bwrdd Clinigol GSCaCh yn cyflwyno Adroddiad Sicrwydd fel rhan o'r drefn arferol i Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (ADaPh) y Bwrdd Iechyd sy'n rhoi sicrwydd ynghylch elfennau allweddol o berfformiad y Bwrdd Clinigol lle mae ansawdd a diogelwch yn y cwestiwn, diweddariadau ar fferylliaeth gymunedol, Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, cynaliadwyedd gwasanaethau deintyddol, a risgiau allweddol i'w hystyried gan y pwyllgor. Ar y cyfan, canfuom fod yr adroddiad yn darparu lefel briodol o wybodaeth ar gyfer craffu a sicrwydd effeithiol.
- 59 Mae gofal sylfaenol hefyd yn cael sylw mewn papurau ac adroddiadau o elfennau ehangach busnes y Bwrdd Iechyd. Er enghraifft, diweddariad y Bwrdd Clinigol GSCaCh i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ar arfarniad sy'n seiliedig ar werthoedd, a chydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol ym mis Mawrth a mis Gorffennaf 2023. Mae adroddiadau cyllid rheolaidd i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad hefyd yn cyfeirio at ofal sylfaenol yng nghyd-destun cyflawni cynlluniau arbedion, a rhagweld llifoedd arian. Cwblhaodd y Bwrdd Iechyd astudiaeth ddofn o ddarparu Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol hefyd ac mae'n bwriadu adrodd wrth y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Tachwedd 2023.
- 60 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn mynd ati fel rhan o'r drefn arferol i ystyried Adroddiad Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd sy'n nodi perfformiad gofal sylfaenol yn erbyn blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd, ymrwymadau ei Gynllun Blyneddol, a Mesurau Fframwaith Perfformiad GIG Cymru. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn wir bod nifer gyfyngedig o fesurau perfformiad mewn perthynas â mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol ac nid yw adroddiadau'n adlewyrchu risgiau i gynaliadwyedd gofal sylfaenol na chynlluniau gofal sylfaenol ehangach yn effeithiol. Er bod y diweddariad yn rhoi trosolwg o berfformiad yn ystod y mis / cyfnod, ni cheir digon o ddata gyda'r mesurau gofal sylfaenol bob amser i'w gwneud yn bosibl mynd ati'n effeithiol i fonitro tueddiadau mewn perfformiad yn erbyn y targedau. Hefyd, nid yw'n rhoi digon o eglurder ynghylch y camau gweithredu y mae eu hangen i wella perfformiad, nac effaith y camau gweithredu a gymerwyd. Ceir cyfleoedd hefyd i'r Bwrdd Iechyd fod yn gliriach ynghylch mesurau sy'n seiliedig ar ddeilliannau ac wrth adrodd i helpu i ddeall pa effaith neu wahaniaeth y mae'n ei wneud. **Felly, rydym yn ystyried bod Argymhellion 6a a 6b yn 2018 wrthi'n mynd rhagddynt. Maent wedi cael eu disodli gan Argymhellion 5.1 a 5.2 yn 2024.**
- 61 Rydym yn nodi adroddiadau rheolaidd ar lefel y Bwrdd Clinigol ar risgiau, perfformiad a chyflawni cynlluniau'r uned fusnes gofal sylfaenol. Er enghraifft, diweddariad cynllunio blyneddol ar y CTCI, newidiadau cytundebol Gofal Sylfaenol, astudiaethau dwfn o ofal sylfaenol, a diweddariadau adolygu Gweithredol. Er bod rhywfaint o'r wybodaeth hon wedi'i hintegreiddio o fewn adroddiadau ar lefel pwyllgorau, nid yw'n ymddangos bod adroddiad pwrpasol i'r Bwrdd na phwyllgor(au) perthnasol ar gynnydd tuag at gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Clinigol GSCaCh. Ceir cyfleoedd hefyd i gryfhau adroddiadau mewn perthynas â deilliannau a phrofiadau gwell i gleifion mewn gofal sylfaenol. **Felly, rydym yn ystyried bod Argymhelliad 6c yn 2018 wrthi'n mynd rhagddo. Mae wedi cael ei ddisodli gan Argymhelliad 5.3 yn 2024.** Mae datblygu Cynllun Cyflawni

GSCaCh blynyddol yn rhoi cyfle i gynhyrchu adroddiad blynyddol gofal sylfaenol mewn blynyddoedd yn y dyfodol, gan nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion strategol y Bwrdd Clinigol GSCaCh (**Argymhelliad 6 yn 2024**).

Y capasiti a'r gallu i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol

- 62 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog y Bwrdd lechyd y capasiti a'r gallu priodol (o ran gwybodaeth, sgiliau a phrofiad) i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn ogystal â rheoli anghenion gweithredol a busnes o ddydd i ddydd.
- 63 Roeddem yn disgwyl gweld y canlynol:
- mae Tîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog y Bwrdd lechyd wedi'i strwythuro'n briodol gyda llinellau atebolrwydd clir a threfn glir ar gyfer adrodd wrth yr uwch reolw(y)r perthnasol.
 - mae'r Bwrdd lechyd mynd ati'n rheolaidd i asesu a dyrannu adnoddau priodol (gan gynnwys caffael cymorth allanol fel y bo angen) i'w Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog i sicrhau y gall reoli gweithrediadau busnes o ddydd i ddydd a newid trawsnewidiol parhaus yn effeithiol.
 - mae'r Bwrdd lechyd yn adolygu lefelau adnoddau o fewn ei Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog yn rheolaidd.
 - mae'r Bwrdd lechyd yn adnabod ac yn cefnogi anghenion hyfforddi, dysgu a datblygu ei Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog yn barhaus er mwyn sicrhau cymysgedd priodol o sgiliau, profiadau a galluoedd.
 - mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth addas ar gyfer ei Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol canolog i sicrhau parhad a lleihau i'r eithaf y risgiau sy'n gysylltiedig â cholli sgiliau, gwybodaeth a phrofiad.
- 64 Canfuom, **er bod y Bwrdd lechyd wedi cynyddu nifer y rolau yn ei Dîm Gofal Sylfaenol Canolog, fod capasiti'n dal i fod o dan bwysau oherwydd llwythi gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Ceir trefniadau da i gefnogi datblygiad staff o fewn y tîm, ond mae angen cryfhau trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth.**
- 65 Mae gan Fwrdd Clinigol GSCaCh y Bwrdd lechyd linellau atebolrwydd clir i'r Prif Swyddog Gweithredu sydd ag awdurdod dirprwyedig ar gyfer gwasanaethau GSCaCh ac sy'n aelod o'r Bwrdd. Mae'r rôl yn cwmpasu'r cyfan o wasanaethau clinigol / gweithredol y Bwrdd lechyd. Er bod hyn yn dwyn mantais o ran trosolwg 'system gyfan' ar ddarparu gwasanaethau, roedd rhai o'r rhai y gwnaethom gyfnewid â hwy'n teimlo bod diffyg rôl cyfarwyddwr dynodedig ar lefel y Bwrdd yn codi heriau o ran esbonio a deall materion a risgiau cymhleth a allai godi mewn gofal sylfaenol. Serch hynny, cefnogir y Prif Swyddog Gweithredu gan strwythur rheoli effeithiol

sy'n cynnwys Cyfarwyddwr Clinigol y Bwrdd Clinigol GSCaCh, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro, a Phennaeth Gofal Sylfaenol.

- 66 Mae'r Tîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn eistedd o fewn strwythur y Bwrdd Clinigol GSCaCh ac yn cael ei reoli gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol. Mae is-strwythur y tîm yn cwmpasu dwy elfen sy'n canolbwyntio ar contractio gofal sylfaenol a deintyddiaeth ac optometreg. Ers ein hadolygiad blaenorol, mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud rhai newidiadau i nifer y swyddi a'r cymysgedd sgiliau yn y tîm ar hyn o bryd. Mae wedi cyflwyno rôl Pennaeth Deintyddiaeth ac Optometreg ac wedi cynyddu capasiti trwy greu sawl rôl newydd ar Fandiau Cyflog 5, 6 a 7, sy'n rhychwantu contractio gofal sylfaenol a deintyddiaeth ac optometreg. Mae'r rolau newydd hyn yn helpu i roi cymorth ychwanegol ar gyfer:
- cynaliadwyedd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol;
 - gweithredu a rheoli'r broses o ddiwygio contractau;
 - monitro perfformiad, llywodraethu a sicrhau contractau gofal sylfaenol;
 - rheoli'r rhestr aros ganolog ar gyfer gwasanaethau deintyddol; ac
 - imiwneiddiadau.
- 67 Mae'n gadarnhaol bod y Bwrdd lechyd wedi darparu capasiti ychwanegol i'r Tîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, ond mae llwythi gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn rhoi rhai uwch arweinwyr dan bwysau, gan effeithio o bosibl ar eu gallu i ymateb i anghenion gweithredol a busnes o ddydd i ddydd a'u rheoli. Mae proses adolygu gweithredol y Bwrdd lechyd yn darparu mecanwaith i uwch arweinwyr drafod pryderon ynghylch adnoddau a chapasiti. Hefyd, mae cynllun gweithlu strategol y Bwrdd lechyd ar gyfer gofal sylfaenol yn amcanu at fynd i'r afael â materion capasiti ar draws pob lleoliad gofal sylfaenol.
- 68 Mae gan y Bwrdd lechyd drefniadau rhesymol i gefnogi hyfforddiant a datblygiad staff ar draws Gwasanaethau GSCaCh. Mae'n defnyddio arfarniadau staff i adnabod anghenion hyfforddi a datblygu, ac mae'n annog staff yn frwd i gael mynediad at hyfforddiant a hwylusir gan y Bwrdd lechyd. Gall rheolwyr ac uwch arweinwyr gael mynediad at gyfleoedd allanol hefyd, megis rhaglenni achrededig y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM), a Phlatform Arweinyddiaeth 'Gwella' Addysg a Gwella lechyd Cymru (AaGIC). Mae'r Bwrdd Clinigol GSCaCh hefyd wrthi'n datblygu sgiliau coetsio ymhlith ei staff i helpu i hwyluso datblygiad staff trwy gyfleoedd mentora a chysgodi.
- 69 Er y bu rhai dyrchafiadau mewnol i rolau arwain, canfuom dystiolaeth gyfyngedig o gynllunio ar gyfer olyniaeth o fewn y Tîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol. Mae hyn nid yn unig yn cyflwyno rhai risgiau byrdymor lle nad yw staff presennol yn gallu cyflenwi yn ystod absenoldebau annisgwyl, ond mae hefyd yn creu risgiau tymor hwy o ran cydnerthedd a pharhad busnes yn dilyn colli sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth allweddol (**Argymhelliad 7 yn 2024**).
- 70 Yn gadarnhaol, mae'r Bwrdd lechyd yn sefydlu Academi GSCaCh a fydd yn ystyried ac yn cydlynu hyfforddiant ac addysg ar gyfer ystod eang o weithwyr

proffesiynol sy'n gweithio o fewn gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol i gyflawni sawl blaenoriaeth a chryfhau trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth, gan gynnwys:

- adeiladu cynaliadwyedd y gweithlu trwy addysg a hyfforddiant;
- deall ac integreiddio rolau newydd;
- cynnal rhagoriaeth a datblygu gyrfaedd;
- cefnogi datblygiad gwasanaethau aml-broffesiwn; a
- datblygu profiadau a chyfleoedd.

71 Mae cynllun strategol drafft y gweithlu ar gyfer gofal sylfaenol hefyd yn nodi sawl blaenoriaeth ar gyfer gwella mynediad at addysg a hyfforddiant, arweinyddiaeth ac olyniaeth, a chyflenwad a siapio'r gweithlu.

Atodiad 1

Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 3** yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth yn gyfyngedig i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

Arddangosyn 3: dulliau archwilio

Elfen o'r dulliau archwilio	Disgrifiad
Dogfennau	<p>Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">Cofnodion a phapurau cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau perthnasol, gan gynnwys cyfarfodydd cyhoeddus a phreifat y Bwrdd, cofnodion y Bwrdd Clinigol GSCaCh, cofnodion Cyfarfodydd Clystyrau, cyfarfodydd Adolygu Gweithredol, cyfarfodydd cyhoeddus y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.Dangosfwrdd perfformiad 24/7 CaF.Dangosfwrdd rheoli perfformiad gweithredol newydd ar gyfer gofal sylfaenol.Dogfen Hunanasesu'r Bwrdd Iechyd a'r papur briffio sy'n cyd-fynd â hi.Adroddiad ar Gynnydd gyda Chynaliadwyedd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.Diweddariad Cynllun Tymor Canolog Integredig 2022-25– Chwarter 4.Adroddiad Blynyddol BIP Caerdydd a'r Fro 2021-2022.Cynllun Blynyddol BIP Caerdydd a'r Fro 2023-2024.Strategaeth 'Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol' Hirdymor BIP Caerdydd a'r Fro hyd at 2035.Asesiad o Anghenion Poblogaeth Caerdydd a'r Fro 2022Datblygu Cynllun Cyflawni'r Bwrdd Clinigol GSCaCh 2024-25 – Diweddariad Medi 2023.Adroddiad Sicrwydd y Bwrdd Clinigol GSCaCh - Gorffennaf 2023
Cyfweliadau	<p>Fe wnaethom gyfweled â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Prif Swyddog Gweithredu;Is-gadeirydd y Bwrdd;Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd – Pennaeth Gweithrediadau; a

Elfen o'r dulliau archwilio	Disgrifiad
	<ul style="list-style-type: none"> • Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd – Pennaeth Cynllunio.
Grwpiau Ffocws	<p>Fe gynhaliom ni grwpiau ffocws gyda:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Staff o dîm Cyfathrebu'r Bwrdd lechyd, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a'r Pennaeth Cyfathrebu. • Staff o swyddogaethau Corfforaethol, Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad y Bwrdd lechyd, gan gynnwys y Cyfarwyddwr lechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol. • Staff o swyddogaethau Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd y Bwrdd lechyd, gan gynnwys y Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd - Cyfarwyddwr Clinigol, y Cyfarwyddwr Nyrsio GSCaCh, y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Sylfaenol a'r Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd - Pennaeth Cyllid.
Arsylwadau	<p>Fe arsylwom ni ar y cyfarfod canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad

Atodiad 2

Crynodeb o'r cynnydd yn erbyn ein hargymhellion yn 2018

Mae **Arddangosyn 4** yn nodi'r argymhellion a wnaethom yn 2018 a'n crynodeb o'r cynnydd.

Arddangosyn 4: crynodeb o'r cynnydd yn erbyn ein hargymhellion yn 2018

Argymhellion	Cynnydd
<p>Cynllunio strategol</p> <p>A1 Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu cynllun uchelgeisiol ar gyfer gofal sylfaenol, ond nid yw'r cynllun yn ystyried effeithiau'r twf a ragwelir yn y boblogaeth o ganlyniad i ddatblygiadau tai yng Nghaerdydd. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd ailedrych ar ei gynllun gofal sylfaenol i sicrhau ei fod yn cynnwys camau gweithredu penodol sy'n diwallu anghenion y twf yn y boblogaeth a ragwelir yng Nghaerdydd.</p>	<p>Wedi'i roi ar waith – gweler paragraffau 31 i 33</p>
<p>Buddsoddi mewn gofal sylfaenol</p> <p>A2 Dim ond gydag ymgynghoriadau a chydweithrediad cyfyngedig â rhai grwpiau o randdeiliaid allweddol y datblygwyd cynlluniau'r Bwrdd lechyd ar gyfer gofal sylfaenol. Felly, dylai'r Bwrdd lechyd ddatblygu'r cynlluniau ymgynghori a chyfathrebu angenrheidiol i sicrhau bod y cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn ystyrlon yn y gwaith o ddatblygu / mireinio ei gynlluniau gofal sylfaenol ymhellach.</p>	<p>Wedi'i roi ar waith – gweler paragraff 34</p>
<p>Buddsoddiad</p> <p>A3 Er bod y Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen iddo symud adnoddau o leoliadau eilaidd i rai sylfaenol a</p>	

Argymhellion	Cynnydd
<p>chymunedol, ni all ddangos bod y newid hwn yn digwydd. Dylai'r Bwrdd lechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Ystyried y sefyllfa o ran llinell sylfaen ei fuddsoddiad presennol a'i ddefnydd o adnoddau ym maes gofal sylfaenol a chymunedol. b) Adolygu ac adrodd, o leiaf unwaith y flwyddyn, ar ei fuddsoddiad ym maes gofal sylfaenol a chymunedol, er mwyn asesu'r cynnydd ers y sefyllfa o ran llinell sylfaenol a monitro i ba raddau y mae'n llwyddo i symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol. 	<p>Wrthi'n mynd rhagddo – gweler paragraffau 38 i 39</p> <p>Wrthi'n mynd rhagddo – gweler paragraffau 37 i 38</p>
<p>Ffyrdd newydd o weithio</p> <p>A4 Er bod y Bwrdd lechyd yn cymryd camau tuag at weithredu ffyrdd newydd o weithio, mae angen mwy o gynnydd i werthuso effeithiolrwydd y modelau newydd hyn ac i brif ffrydio eu cyllid. Dylai'r Bwrdd lechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) Gweithio gyda'r clystyrau i gytuno ar fframwaith penodol i werthuso ffyrdd newydd o weithio, er mwyn darparu tystiolaeth o ganlyniadau sy'n fuddiol a llywio penderfyniadau ynghylch a ddylid ehangu'r modelau hyn. b) Casglu gwerthusiadau o ffyrdd newydd o weithio yn ganolog a rhannu'r hyn a ddysgir drwy roi cyhoeddusrwydd i'r negeseuon allweddol ar draws pob clwstwr. c) Os ceir gwerthusiad cadarnhaol, dechrau ariannu'r modelau newydd hyn o gyllid prif ffrwd, yn hytrach nag o'r Gronfa Datblygu Gofal Sylfaenol. 	<p>Wrthi'n mynd rhagddo – gweler paragraff 41</p> <p>Wrthi'n mynd rhagddo – gweler paragraff 41</p> <p>Wrthi'n mynd rhagddo – gweler paragraff 41</p>

Argymhellion	Cynnydd
<p>d) Gweithio gyda'r cyhoedd i hyrwyddo ffyrdd newydd llwyddiannus o weithio, yn enwedig pwyntiau cyswllt cyntaf newydd ym maes gofal sylfaenol sydd â'r potensial i leihau'r galw am apwyntiadau gyda meddyg teulu.</p>	<p>Wrthi'n mynd rhagddo – gweler paragraff 42</p>
<p>Clystyrau gofal sylfaenol</p> <p>A5 Gwelwyd amrywiaeth yn aeddfedrwydd y clystyrau gofal sylfaenol. Dylai'r Bwrdd lechyd:</p> <p>a) Adolygu aeddfedrwydd cymharol y clystyrau, er mwyn datblygu a gweithredu cynllun i gryfhau ei gefnogaeth i glystyrau lle bo angen.</p> <p>b) Adolygu aelodaeth y clystyrau a phresenoldeb yn y cyfarfodydd clwstwr er mwyn asesu a oes angen cael mwy o gynrychiolaeth gan yr awdurdodau lleol, y trydydd sector, cynrychiolwyr lleig a grwpiau rhanddeiliaid eraill.</p> <p>c) Sicrhau bod pob arweinydd clwstwr yn mynd ar gwrs Arweinwyr Gofal Sylfaenol Hyderus.</p>	<p>Wrthi'n mynd rhagddo – gweler paragraff 46</p> <p>Wrthi'n mynd rhagddo – gweler paragraff 47</p> <p>Wedi'i roi ar waith – gweler paragraff 48</p>
<p>Goruchwylio gofal sylfaenol</p> <p>A6 Gwelwyd bod lle i wella'r ffordd y caiff perfformiad gofal sylfaenol ei fonitro a'i adrodd ar lefel Bwrdd a phwyllgor. Dylai'r Bwrdd lechyd:</p> <p>a) Sicrhau bod cynnwys ei adroddiadau perfformiad Bwrdd a phwyllgorau yn cwmpasu gofal sylfaenol yn ddigonol.</p> <p>b) Sicrhau bod y Bwrdd a phwyllgorau yn cael adroddiadau</p>	<p>Wrthi'n mynd rhagddo – gweler paragraffau 55 i 60</p>

Argymhellion	Cynnydd
<p>ar berfformiad gofal sylfaenol yn fwy aml.</p> <p>c) Sicrhau bod adroddiadau i'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn rhoi digon o sylwebaeth ar y cynnydd o ran cyflawni cynlluniau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd, ac i ba raddau y mae'r cynlluniau hynny yn arwain at well brofiadau a chanlyniadau i gleifion.</p>	<p>Wrthi'n mynd rhagddo – gweler paragraffau 55 i 60</p> <p>Wrthi'n mynd rhagddo – gweler paragraff 61</p>

Atodiad 3

Ymateb sefydliadol i'r argymhellion archwilio

Mae **Argymhelliad 5** yn nodi ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion archwilio.

Cyf	Argymhelliad	Ymateb sefydliadol Nodwch sylwebaeth berthnasol yma ar y camau gweithredu arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1	Buddsoddi mewn gofal sylfaenol Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol : 1.1 Cyfrifo sefyllfa sylfaenol ar gyfer ei fuddsoddiad a'i ddefnydd o adnoddau mewn gofal sylfaenol a chymunedol ar hyn o bryd. 1.2 Mynd ati, o leiaf yn flynyddol, i adolygu ei fuddsoddiad mewn gofal sylfaenol a chymunedol ac adrodd ar hynny, i asesu'r cynnydd ers y sefyllfa sylfaenol ac i fonitro i ba raddau y mae'n llwyddo i symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol a chymunedol.	Yn ystod 2024/25 byddwn yn datblygu ein hasesiad sylfaenol o fuddsoddi ac adnoddau mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol, a fydd yn cael ei ddefnyddio fel y sail i gyfrifo symudiad adnoddau (effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system) o un flwyddyn i'r llall.	Chwarter 4, 2024	Cyfarwyddwr y Bwrdd Clinigol GSCaCh, Cyfarwyddwr Gweithrediadau GSCaCh, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau GSCaCh, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Pennaeth Cyllid

A2**Ffyrdd newydd o weithio**

Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol :

- 2.1 Gweithio gyda'r clystyrau i gytuno ar fframwaith penodol i werthuso ffyrdd newydd o weithio, i ddarparu tystiolaeth o ddeilliannau buddiol a goleuo penderfyniadau ynglŷn ag ehangu'r modelau hyn ai peidio;
- 2.2 Mynd ati'n ganolog i goladu gwerthusiadau o ffyrdd newydd o weithio a rhannu'r gwersi trwy roi cyhoeddusrwydd i'r negeseuon allweddol ar draws pob clwstwr;
- 2.3 Yn amodol ar werthusiad cadarnhaol, dechrau ariannu modelau newydd â chyllid prif ffrwd; a
- 2.4 Gweithio gyda'r cyhoedd i hyrwyddo ffyrdd newydd llwyddiannus o weithio, yn enwedig manau cyswllt amgen newydd mewn gofal sylfaenol sydd â'r potensial i leihau'r galw am apwyntiadau meddygon teulu .

Mae'r gwaith yma eisoes ar y gweill yn lleol.

Mae'r Rhaglen Genedlaethol Datblygu Clwstwr Carlam (ACD) yn hwyluso Clystyrau Gofal Sylfaenol, sy'n cynnwys gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol, i weithio ar draws ffiniau gwasanaethau i ddylanwadu ar ddatblygu gwasanaethau ar gyfer eu cleifion.

Bydd cynllun y Grwpiau Cynllunio ar draws Clystyrau, sy'n gwasanaethu rhanbarthau Caerdydd a'r Fro, yn canlyn arni â gwaith yn ystod cylch cynllunio 2024 i oleuo cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system gyfan o safbwynt Gofal Sylfaenol, gyda hynny'n cael ei oleuo gan gynlluniau a gyflawnwyd gan glystyrau etifeddiaeth/cylchol cyfredol gyda sylfaen dystiolaeth gref ar gyfer y gallu i dyfu yn unol â'r anghenion.

Bydd papur yn cael ei ddarparu ar gyfer Bwrdd Uwch Arweinwyr Caerdydd a'r Fro ym mis Mai 2024, a hwnnw'n nodi gwaith Clystyrau a Grwpiau Cynllunio ar draws Clystyrau hyd yma.

Mae sesiynau datblygu yn yr arfaeth yn ystod Chwarter 1 2024 i ddatblygu adnoddau i ategu'r

Chwarter 4, 2024

Cyfarwyddwr y Bwrdd Clinigol GSCaCh, Cyfarwyddwr Gweithrediadau GSCaCh, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau GSCaCh, Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Pennaeth Cyllid

		<p>broses werthuso ymhellach ac i sefydlu Grwpiau Cynllunio Clystyrau ac ar draws Clystyrau ymhellach fel rhan o saerñaeth gynllunio'r BIPau.</p> <p>Bydd modelau/cynlluniau newydd i'w blaenoriaethu ar gyfer buddsoddi'n cael eu hadnabod wedyn i gael eu cynnwys o fewn proses gynllunio'r Bwrdd lechyd ar gyfer cynllun blynyddol 2025/26. Byddir yn parhau i ofyn am werthusiadau fel rhan o gymeradwyo/adnewyddu cynigion Clystyrau a byddant yn cael eu dal yn ganolog trwy adnodd SharePoint.</p> <p>Rydym yn parhau i ddefnyddio 'Dewis Sylfaenol' fel ein prif ddull brandio a chysyniad i helpu'r cyhoedd i ddeall yr ystod o sgiliau a gwasanaethau sydd ar gael iddynt o fewn Gofal Sylfaenol, dan arweiniad y Grŵp Llywio Gweithgarwch Cyfathrebu.</p> <p>Yn ystod 2024/25, byddwn yn rhaeadru gwybodaeth sy'n seiliedig ar wasanaethau fesul Clwstwr i rannu gwybodaeth am lefel ac ystod y gwasanaethau sydd ar gael iddynt o fewn eu cymuned.</p>		
A3	Clystyrau gofal sylfaenol Dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol :	Bydd hwn yn parhau i fod yn ddarn o waith parhaus.	Chwarter 3, 2024	Dirprwy

	<p>3.1 Adolygu aeddfedrwydd perthynol clystyrau, i ddatblygu a gweithredu cynllun i gryfhau ei gymorth i glystyrau lle y bo angen .</p> <p>3.2 Adolygu aelodaeth clystyrau a phresenoldeb yng nghyfarfodydd clystyrau i asesu pa un a oes angen cynyddu cynrychiolaeth o blith awdurdodau lleol, y trydydd sector, cynrychiolwyr lleig a grwpiau rhanddeiliaid eraill.</p>	<p>Bydd clystyrau'n ymgysylltu â'r rhaglen o waith DCC Cenedlaethol i oleuo asesiad o aeddfedrwydd ledled Cymru trwy broses adolygu Clystyrau gan Gymheiriaid a matrices hunanasesu. Bydd adolygiad o aelodaeth Clystyrau'n cael ei gynnal hefyd gan Arweinwyr Clystyrau yn unol â gweithgareddau'r broses adolygiad gan gymheiriaid.</p> <p>Cefnogir clystyrau trwy gyfarfod grŵp gweithrediadau misol i drafod risgiau, materion, camau gweithredu neu benderfyniadau y mae eu hangen i gefnogi yn unol â gofynion y rhaglen DCC a threfniadau gweithredol disgwylidig, gyda champau gweithredu/uwchgyfeiriadau yn cael eu cymryd i gefnogi cynnydd ymhellach. Mae cynnydd yn erbyn mesurau DCC yn dal i gael ei fonitro'n genedlaethol hefyd.</p> <p>Mae Arweinwyr Clystyrau'n ymgysylltu'n genedlaethol trwy Grŵp Arweinwyr Clystyrau Cymru Gyfan ac mae arweinwyr Byrddau Iechyd yn ymgysylltu â grŵp Dysgu Gweithredol Cenedlaethol i rannu gwersi a/neu ddulliau arfer gorau.</p>		<p>Gyfarwyddwr Gweithrediadau GSCaCh, Dirprwy Gyfarwyddwr y Bwrdd Clinigol GSCaCh yn gweithio gydag Arweinwyr Clystyrau a Rheolwyr Ardaloedd</p>
<p>A4</p>	<p>Ymagwedd strategol at ofal sylfaenol Dylai Cynllun Cyflawni'r Bwrdd Clinigol Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd gynnwys</p>	<p>Byddwn yn defnyddio ein cynllun 'Gweithredol' i oleuo ein strategaeth a'n blaenoriaethau tymor hwy ar gyfer gwasanaethau Gofal Sylfaenol a</p>	<p>Chwarter 3, 2025</p>	<p>Cyfarwyddwr y Bwrdd Clinigol GSCaCh,</p>

blaenoriaethau tymor canolig (3 i 5 mlynedd) i roi cymorth i gyflawni amcanion strategol tymor hwy'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gofal sylfaenol.

Chymunedol. Bydd y naratif yn y cynllun gweithredol yn newid i adlewyrchu ein blaenoriaethau a'n huchelgeisiau tymor hwy, gyda hynny'n cael ei ategu gan gynllun cyflawni yn ystod y flwyddyn.

Bydd hyn yn cael ei siapio/ei oleuo gan;

- Y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol
- Strategaeth y Bwrdd Iechyd – Darparu yn y Lleoedd Cywir
- 6 Nod ar gyfer Gofal Brys ac mewn Argyfwng
- 5 Nod ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio
- Cynllun Ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) – Dechrau'n Dda, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda.
- Aseiad o Anghenion y Boblogaeth
- Blaenoriaethau Cynllunio Clystyrau ac ar draws Clystyrau

Yn ystod 2024/25 byddwn yn datblygu ein hasesiad sylfaenol o'n gwasanaethau a'n buddsoddiadau mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Byddwn yn gweithio ar draws ein partneriaid a'n systemau i ddisgrifio ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

Cyfarwyddwr
Gweithrediadau
GSCaCh, Dirprwy
Cyfarwyddwr
Gweithrediadau
GSCaCh – yn
gweithio gyda
Strategaeth a
Chynllunio,
Cyfarwyddwr
Integreiddio
Iechyd a Gofal
Cymdeithasol

<p>A5</p>	<p>Goruchwyliaeth a gwelededd ar lefel y Bwrdd</p> <p>Dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:</p> <p>5.1 Sicrhau bod cynnwys adroddiadau perfformiad ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau'n rhoi sylw digonol i ofal sylfaenol;</p> <p>5.2 Cynyddu mynychder adroddiadau ar berfformiad gofal sylfaenol i'r Bwrdd a phwyllgorau; a</p> <p>5.3 Sicrhau bod adroddiadau i'r Bwrdd a phwyllgorau'n darparu digon o sylwebaeth ar gynnydd o ran cyflawni cynlluniau'r Bwrdd lechyd ar gyfer gofal sylfaenol, ac i ba raddau y mae'r cynlluniau hynny'n arwain at brofiadau a deilliannau gwell i gleifion.</p>	<p>Ceir cynllun i gynyddu'r adroddiadau ar ofal sylfaenol ar lefel y Bwrdd. Mae adolygiad o'r drefn adrodd bresennol ar y gweill, a fydd yn adeiladu ar y data a'r wybodaeth a rennir yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Grŵp Cyflawni Gweithredol ac Adolygu Gweithredol, i sicrhau bod y Bwrdd a phwyllgorau eraill yn cael golwg gadarn ar berfformiad Gofal Sylfaenol, fel rhan o'r system.</p> <p>Bydd hyn yn cyd-daro ag adolygiad o drefniadau gweithredu'r Bwrdd Clinigol a chryfhau ein Fframwaith Sicrwydd Busnes, gan sicrhau bod y strwythurau a'r systemau cywir yn bodoli.</p>	<p>Chwarter 3, 2024</p>	<p>Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwr y Bwrdd Clinigol GSCaCh, Cyfarwyddwr Gweithrediadau GSCaCh, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau GSCaCh</p>
<p>A6</p>	<p>Adroddiadau blynyddol</p> <p>Yn dilyn rhoi'r Cynllun Cyflawni Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd ar waith, dylai'r Bwrdd lechyd gynhyrchu Adroddiad Gofal Sylfaenol blynyddol sy'n nodi ei gyflawniadau yn ystod y flwyddyn flaenorol, gyda'r adroddiad cyntaf yn adlewyrchu'r cyfnod o 2024-25.</p>	<p>Mae cynlluniau eisoes ar waith i ddatblygu adroddiad diwedd blwyddyn yn ystod Chwarter 1 2024. Byddir yn adeiladu ymhellach ar y cysyniad hwn yn ystod 2024 ac yn ei wreiddio ymhellach fel proses ar gyfer y cyfnod o 2025 ymlaen</p>	<p>Chwarter 1, 2025</p>	<p>Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Cyfarwyddwr y Bwrdd Clinigol, Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau</p>

A7

Cynllunio ar gyfer Olyniaeth

Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer ei Dîm Gwasanaethau Gofal Sylfaenol i sicrhau mwy o gydnerthedd a pharhad busnes o ran sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth.

Byddwn yn defnyddio cyfleoedd yn ystod 2024/25 i adnabod yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau sylfaenol sy'n ofynnol o fewn Timau Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, ac yna'n asesu'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd. Unwaith y byddwn wedi canfod beth yw'r bwlch, gan weithio gyda'n Hacademi Gofal Sylfaenol Leol, byddwn yn datblygu rhaglen sefydlu a hyfforddi ar gyfer timau Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn seiliedig ar:

- Newydd i Wasanaethau Gofal Sylfaenol
- Pontio i Wasanaethau Gofal Sylfaenol

I nodi mae Cynllun Strategol y Gweithlu ar gyfer Gofal Sylfaenol (sydd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2024) wedi adnabod hyn fel blaenoriaeth hefyd felly gall fod angen addasu unrhyw gynlluniau lleol i ateb gofynion y cyfeiriad/rhaglen waith genedlaethol.

Chwarter 2, 2025

Cyfarwyddwr
Gweithrediadau,
Dirprwy
Cyfarwyddwr
Gweithrediadau



Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall,

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.